



Ein cyf/Our ref LW/02389/22

Y Cyngorydd Elwyn Jones
eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

20 Ionawr 2023

Annwyl Gyngorydd Elwyn Jones,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor i gefnogi ailagor rheilffyrdd Cymru. O fewn y cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru rydym wedi ymrwmo i edrych ar ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De, gan edrych hefyd ar sut i warchod coridorau teithio posibl ar arfordir gorllewinol Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru newydd gwblhau astudiaeth ddichonoldeb i edrych yn fanylach ar yr ymrwymiad hwnnw, a oedd yn cynnwys y coridor trafnidiaeth rhwng Amlwch a Bangor. Argymhellodd yr adroddiad y dylid edrych yn fanylach ar ddichonoldeb datblygu coridor rheilffordd rhwng Bangor a Phwllheli / Phorthmadog trwy Gaernarfon oherwydd, o blith y llwybrau teithio yr edrychwyd arnynt, mai ar y coridor hwnnw y rhagwelir y lefel uchaf o alw. Nododd yr astudiaeth hefyd y byddai'r llwybr hwnnw, o'i ddatblygu, yn creu cysylltiad rhwng Prif Linell bresennol Gogledd Cymru ym Mangor a Rheilffordd y Cambria, gan gyfrannu at wella cysylltedd rhwng Gogledd a De Cymru yn gyffredinol trwy ganiatáu i bobl deithio yn eu blaen i lawr y arfordir i gyfeiriad Machynlleth.

Yn anffodus, mae gwaith i ddatblygu rheilffyrdd, yn ogystal â mynd at i wneud y gwaith ei hun, yn gostus iawn, ac nid yw'r gwaith hwnnw'n bosibl ar hyn o bryd o gofio bod y cyllidebau sydd gennym ar hyn o bryd yn rhai heriol iawn. Gan nad yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli'n briodol a chan nad yw'r setliad cyllido yn un teg, mae angen i Lywodraeth y DU ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd arni i wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y manteision clir a fyddai'n deillio o hynny o ran darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig ac o ran annog pobl i newid eu dulliau teithio, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais dro ar ôl tro ac wedi methu'n gyson â buddsoddi yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y tymor byr, rydym yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a'r Aelodau Dynodedig o dan y Cytundeb Cydweithio i ddatblygu rhaglen waith i edrych ar sut y gallwn wella cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus yn y coridorau teithio hyn gan ddefnyddio bysiau trydan, a byddwn yn mynd ati ar yr un pryd i geisio diogelu coridorau teithio rhag rhagor o waith datblygu, ac i annog Llywodraeth y DU i fuddsoddi yn rhwydweithiau rheilffyrdd Cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee'.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change